



# Coetiroedd a Chi Bwyd Cymunedol

## NODYN CYFARWYDDYD

Mae'r canllawiau yma'n egluro sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb i gynigion *Coetiroedd a Chi* am **brosiectau bwyd cymunedol** ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru.

### Cefndir

Mae yna fwy a mwy o alw am safleoedd rhandir drwy'r DU. Fel rheolwr ystâd goetir Llywodraeth Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn derbyn mwy o geisiadau gan gymunedau sy'n dymuno defnyddio safleoedd ar gyron coedwigoedd ar gyfer tyfu bwyd. Rydym yn awyddus i dderbyn cynigion am gynlluniau o'r fath drwy'n rhaglen *Coetiroedd a Chi*.

### Y Camau Cyntaf a Chymorth i Ddatblygu

Os oes gennych safle mewn golwg, **y cam cyntaf yw cysylltu â'ch Swyddfa Ardal leol** i wirio mai Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheolwr y coetir a thrafod yr opsiynau sydd ar gael - [gweler y map o Ardaloedd Lleol yng Nghymru a manylion cyswllt](#). Gall fod materion rheoli, Cynllun Adnoddau Coedwigoedd neu faterion datblygu penodol y byddai angen i chi eu hystyried, neu sy'n gwneud y prosiect yn anaddas mewn lleoliad arbennig. Fe wnawn ein gorau i weithio gyda chi i ddatrys unrhyw broblemau.

Er mwyn sicrhau fod cynigion bwyd cymunedol yn cael y cyfle gorau posibl i lwyddo a bod cefnogaeth ddatblygu arbenigol ar gael, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch i fod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG). Ceir manylion cyswllt y Ffederasiwn ar dudalen 3, a gall Tîm Cymru helpu gyda materion megis asesu safle, opsiynau cyfansoddiad y grŵp, cynllunio a dylunio'ch prosiect, a'ch rhoi mewn cysylltiad â phrosiectau bwyd cymunedol eraill. Pan fo'n briodol, bydd yr FCFCG yn cynnwys arbenigwyr eraill, i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd a'u gwasanaethau cymorth hefyd.

### Eich Cynnig *Coetiroedd a Chi* – Ffurflen Brosiect

Os yw'r trafodaethau cychwynnol yn gadarnhaol, bydd angen i chi roi mwy o fanylion a gwybodaeth drwy lenwi'r **Ffurflen Brosiect** – ar gael i'w llwytho i lawr o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â Chanllawiau i'ch arwain. Os hoffech gopïau papur, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000. Bydd angen i chi ddangos fod gan eich grŵp bolisi aelodaeth agored, a disgrifio sut bydd y prosiect yn cynnig manteision ehangach i'r gymuned (e.e.

plotiau i ysgolion, diwrnodau agored, hyfforddiant sgiliau ayb.). Byddwn ni hefyd yn gofyn i chi adrodd yn ôl yn flynyddol ar gynnydd a deilliannau.

Os yw'ch prosiect yn cael ei gymeradwyo, byddwn yn cynnig Tenantiaeth Rhandir i'ch grŵp - prydles tymor sefydlog sy'n rhoi defnydd unigryw i chi o'r ardal ddynodedig, ac yn dangos yn union yr hyn y caniateir i chi ei wneud.

**Cofiwch gysylltu â ni os ydych eisiau trafod unrhyw agwedd ar y canllawiau hyn neu os hoffech wybod rhagor.**



## **Sut i Gysylltu â Thîm FCFGC Cymru**

### **Swyddfa De Ddwyrain Cymru (Caerdydd)**

46 Ninian Park Road, Glan yr Afon, Caerdydd, CF11 6JA

Ffôn: 029 20225942&029 20235535

*Katie Jones (Rheolwr Datblygu Cymru): 07793 669 721 [katie@farmgarden.org.uk](mailto:katie@farmgarden.org.uk)*

*Emma Williams (Gweithiwr Datblygu De Ddwyrain Cymru):07786 880119*

*[emma@farmgarden.org.uk](mailto:emma@farmgarden.org.uk)*

*Tim Atkinson (Cydllynydd Mentrau Cymunedol a Chyllid):0755 7004608*

*[tim@farmgarden.org.uk](mailto:tim@farmgarden.org.uk)*

*Abby Charles (Gweinyddydd Cymru):[Abigail@farmgarden.org.uk](mailto:Abigail@farmgarden.org.uk)*

### **Swyddfa De Orllewin Cymru**

Uned 1A, Yr Hen Ysgol, Station Road, Arberth, Sir Benfro, SA67 7DU

Ffôn:01834 869927

*Rupert Dunn (Gweithiwr Datblygu De Orllewin Cymru):07787 773437*

*[Rupert@farmgarden.org.uk](mailto:Rupert@farmgarden.org.uk)*

### **Swyddfa Canolbarth Cymru**

Cwm Harry Land Trust, Unit H, Vastre Industrial Estate, Y Drenewydd , Powys , SY16 1DZ

Ffôn: 01686 946235

*Gary Mitchell (Gweithiwr Datblygu Canolbarth Cymru) 07866 802737*

*[gary@farmgarden.org.uk](mailto:gary@farmgarden.org.uk)*

### **Swyddfa Gogledd Cymru**

Ty Gwydr / Greenhouse, 1 Trevelyan Terrace, Stryd Fawr, BANGOR, Gwynedd, LL57 1AX

FFôn: 01248 208630

*Sarah Collick (Gweithiwr Datblygu Gogledd Cymru) 07910 498762*

*[sarah@farmgarden.org.uk](mailto:sarah@farmgarden.org.uk)*